

Cofnodion y Cyfarfod a Gynhaliwyd yn Breifat:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (CTMUHB) a gynhaliwyd ddydd Iau 25 Mawrth 2021 fel Cyfarfod Rhithwir drwy Microsoft Teams

Aelodau'n Bresennol:

Marcus Longley	Cadeirydd/Aelod Annibynnol
Paul Mears	Y Prif Weithredwr
Maria Thomas	Is-Gadeirydd/Aelod Annibynnol
Nick Lyons	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol/Dirprwy Brif Weithredwr
Gareth Robinson	Prif Swyddog Gweithredu (Dros Dro)
Hywel Daniel	Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl
Patsy Roseblade	Aelod Annibynnol
Dilys Jouvenat	Aelod Annibynnol
Greg Dix	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio
Ian Wells	Aelod Annibynnol
James Hehir	Aelod Annibynnol
Jayne Sadgrove	Aelod Annibynnol
Keiron Montague	Aelod Annibynnol
Kelechi Nnoaham	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd
Mel Jehu	Aelod Annibynnol
Nicola Milligan	Aelod Annibynnol
Clare Williams	Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad (Dros Dro)
Steve Webster	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid

Eraill yn Bresennol

Georgina Galletly	Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd
Cally Hamblyn	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu a Risg
David Jenkins	Cynghorydd Annibynnol i'r Bwrdd (yn Arsylwi)
Sara Utley	Archwilio Cymru
Wendy Penrhyn-Jones	Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol a Busnes y Bwrdd (Ysgrifenyddiaeth)

MATERION RHAGARWEINIOL

- 1.1 Croeso a Chyflwyniadau**
Croesawodd Marcus Longley bawb i'r cyfarfod yn arbennig Patsy Roseblade gan mai hwn oedd ei chyfarfod cyntaf o'r Bwrdd ers ymuno â CTMUHB.
- 1.2 Ymddiheuriadau am Absenoldebau**
NODODD yr aelodau ymddiheuriadau gan Philip White, Aelod Annibynnol a Fiona Jenkins, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Therapiau a Gwyddorau Iechyd

1.3 **Datganiadau o fuddiannau**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

2 **PRIF AGENDA**

2.1 **Cynnig ar gyfer Caffael a Gwaredu Eiddo**

DERBYNIWYD adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth i brynu rhydd-ddaliad y safle uchod.

Wrth drafod y pryniant arfaethedig, cefnogwyd hyn ac eithrio Keiron Montague a deimlai na allai wneud hynny oherwydd nad oedd cynlluniau manwl ar gyfer defnyddio'r capasiti ychwanegol ar gael eto.

PENDERFYNWYD:

- Y dylai'r bwriad i brynu'r rhydd-ddaliad gael ei **GYMERADWYO** ar y sail y dylid dod â chynlluniau manwl ar gyfer y defnydd arfaethedig o'r llety ychwanegol yn ôl i'r Bwrdd maes o law i'w hystyried.

2.2 **Craffu a Chymeradwyo IMTP**

DERBYNIWYD adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth i gyflwyno Cynllun Blynyddol CTM drafft ar gyfer 2021/22 i Lywodraeth Cymru ynghyd â chyflwyniad i Aelodau'r Bwrdd ynghylch y materion allweddol a oedd yn effeithio ar y Cynllun Blynyddol drafft.

Dywedodd Clare Williams fod gofyn i'r Bwrdd, ar hyn o bryd, gefnogi cyflwyno'r cynllun blynyddol drafft i Lywodraeth Cymru yn hytrach na chymeradwyo cynnwys y cynllun. **NODODD** Aelodau'r Bwrdd fod y cyflwyniad ar y sail y byddai CTMUHB yn parhau i weithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r cynllun ymhellach gyda'r nod o alinio'r effaith ariannol â chyllid a gymeradwywyd.

Gofynnodd Paul Mears am sylwadau Aelodau'r Bwrdd ar y fersiwn ddiweddaraf o lythyr drafft y Swyddog Atebol (wedi'i atodi i bapurau'r agenda) a gyfeiriwyd at Gyfarwyddwr Cyffredinol/Prif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru. Cadarnhaodd Aelodau'r Bwrdd eu bod yn fodlon â'r llythyr.

PENDERFYNWYD:

- Y dylid **CYMERADWYO** y broses o gyflwyno Cynllun Blynyddol drafft CTMUHB ar gyfer 2021/22.

- Y dylid **CEFNOGI** y broses o gyflwyno llythyr drafft y Swyddog Atebol.

3. UNRHYW FATERION ERAILL

Nid oedd unrhyw faterion pellach a chaewyd cyfarfod y Bwrdd yn y pwyllgor.

HEB EU CADARNHAU